Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Terrig

Ffordd Y Llan
Treuddyn
Mold
Flintshire
CH7 4LN

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Terrig

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Terrig |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Nia Connah |
| Person â gofal | Sonia Suarez GriffithsLauren Hughes-Jones |
| Nifer y lleoedd | 28 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 7 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 20 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 0745-1745 o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/06/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu yr adnoddau a'r profiadau er mwyn hyrwyddo diwylliannau amrywiol

A2 Datblygu'r modd y mae ymarferwyr yn herio'r dysgu, er mwyn datblygu ac ymestyn sgiliau meddwl a hyrwyddo datblygiad plant.

A3 Cryfhau gweithdrefnau goruchwylio staff ac ehangu ar gyfleoedd dysgu proffesiynol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn hapus ac yn ddiogel yn y lleoliad ac yn gwybod eu bod yn cael eu parchu gan bob ymarferydd. Mae gan bron pob un o'r plant ymdeimlad cryf o berthyn. Mae ganddynt lais gwerthfawr ac yn amlygu hyder i fynegi sut yr hoffent defnyddio adnoddau a'r amgylchedd. Maent yn dewis eu hadnoddau yn effeithiol ac yn annibynnol ac yn dilyn trywydd eu hunain. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r beiciau i rasio yn yr ardal allanol neu i gasglu piben i greu ramp i'w ceir chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn llwyddo i gyfleu eu teimladau a'u hanghenion personol yn hyderus. Er enghraifft, maent yn casglu cadair er mwyn i'r ymwelydd eistedd gyda hwy ar dasg. Mae'r plant yn manteisio ar y cyfleoedd a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Maent yn llwyddo i benderfynu yn annibynnol ble y maent am chwarae a phryd y maent am wneud hynny. Er enghraifft, mae rhai plant yn adeiladu cestyll tywod ac eraill yn mwynhau edrych ar lyfrau yn hytrach nag ymuno yn amser cylch gan ddatgan nad ydynt yn gyffyrddus i wneud hynny yn syth. Mae'r profiadau a'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu annibyniaeth y plant.

Mae plant o bob oed yn setlo'n dda ar ddechrau pob sesiwn ac yn amlwg, o'u cyffro, yn hollol hapus. O ganlyniad i natur hamddenol yr ymarferwyr, ynghyd â'r ffaith eu bod yn ymateb yn dda i anghenion y plant, mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn llawn brwdfrydedd. Mae chwerthin i'w glywed ar draws y lleoliad, er enghraifft wrth iddynt chwarae ar y beiciau neu ar y cwrs rhwystr.

Mae plant o bob oed yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, a chydag ymarferwyr ac ymwelwyr. O ganlyniad, maent yn ofalgar ac wedi ffurfio perthnasoedd priodol. Mae bron bob plentyn yn dangos caredigrwydd arbennig tuag at ei gilydd, ac yn barod i gefnogi ei gilydd. Er enghraifft, maent yn mwynhau cydweithio i gario offer yn yr ardal allanol ar gyfer eu chwarae. Mae bron bob un o'r plant yn hyderus ym mhresenoldeb ymwelwyr. Maent yn awyddus i sicrhau fod pawb yn cael eu cynnwys yn rhan o'u chwarae ac i drafod yr hyn yr oeddynt yn eu gwneud. Er enghraifft, maent yn sgwrsio am wneud cawl yn yr ardal allanol.

Mae bron bob plentyn yn frwdfrydig ac yn dysgu trwy chwarae. Maent yn mwynhau y cyfleoedd a gynigir yn yr ardal allanol i ddatblygu eu medrau corfforol. Maent yn manteisio ar bob cyfle i redeg, beicio a chydbwyso ar yr offer.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn bwrpasol. Maent yn rhydd i gasglu diodydd yn ystod y dydd ac yn cael eu hannog i fwyta yn annibynnol. Maent hefyd yn cymryd cyfrifoldeb dros eu hylendid personol, yn defnyddio'r tŷ bach yn annibynnol ac yn golchi a sychu eu dwylo wedi gorffen.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cyson dda o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu sgiliau llythrennedd cynnar da. Maent yn dangos brwdfrydedd tuag at lyfrau a phrint yn eu hamgylchedd, yn aml yn dewis ymlacio gyda chyfoedion wrth archwilio straeon. Mae'r mwyafrif o blant yn dechrau deall bod marciau yn cynnwys ystyr. Maent yn defnyddio ystod o offer yn hyderus i fynegi eu syniadau er enghraifft maent yn tynnu lluniau o aelodau o'r teulu a mynegi awydd i fynd â'u gwaith adref.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn gynyddol hyderus er enghraifft wrth sgwrsio gyda'u ffrindiau yn y tŷ bach twt a'r siop hufen ia. Maent yn trafod wrth chwarae a chymdeithasu gyda'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau syml yn ystod arferion dyddiol, fel amser byrbryd ac amser cylch. Er enghraifft, maent yn dychwelyd i olchi eu dwylo pan ofynnir iddynt. Mae llawer o blant yn cymryd rhan weithredol mewn canu rhigymau Cymraeg ac ychydig yn parhau i ganu'n annibynnol wrth fynd i chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau personol ac yn dechrau labelu emosiynau yn ystod trafodaethau adeg amser cylch. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu ymwybyddiaeth o arferion hylendid a gofal personol, er enghraifft wrth olchi dwylo. Mae'r mwyafrif o blant yn dechrau cydweithio â phlant eraill, gan rannu a chymryd tro gydag aeddfedrwydd cynyddol.

Mae rhan fwyaf o blant yn arddangos medrau corfforol cadarn. Maent yn egnïol yn gorfforol ac yn dangos rheolaeth gynyddol yn eu chwarae. Mae'n nhw'n dygymod yn dda gyda heriau corfforol gan arddangos cydbwysedd effeithiol wrth sefyll ar wahanol offer chwarae. Mae llawer yn arddangos medrau modur man effeithiol wrth chwarae gydag offer i drin toes neu wrth ddatgloi cloeon.

Mae creadigrwydd y plant yn datblygu'n dda, a maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a thechnegau i greu yn llwyddiannus. Er enghraifft mae llawer yn defnyddio offer i dorri, gludo a siapio er mwyn creu lluniau lliwgar ac wrth ddweud eu bod wedi creu bisgedi blasus yr olwg.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer priodol mewn cyd-destunau chwarae, fel llenwi cynwysyddion â thywod neu ddŵr. Mae llawer yn cyfri'n hyderus hyd at 10 ac maent yn dechrau cael gafael ar werth rhifau trwy chwarae rôl. Mae gan y mwyafrif o blant ddealltwriaeth dda o siapiau a phatrymau sylfaenol,  er enghraifft maent yn enwi siapiau a chreu patrymau gan ddefnyddio offer digidol. Maent yn llwyddo i gyfrif, trin a chyfnewid arian wrth chwarae'n ddychmygus yn y siop hufen ia.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas. Gall y mwyafrif archwilio deunyddiau gyda diddordeb, sylwi ar newidiadau a  canolbwyntio'n aeddfed am gyfnod estynedig.  Mae'r mwyafrif yn dymuno rhannu profiadau newydd. Er enghraifft maent yn sôn am wyliau dramor sy'n arwain at gyfleoedd i ddysgu mwy am wahanol ddiwylliannau, eu bwydydd a'u cerddoriaeth.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod iechyd a lles plant yn cael ei gynnal yn effeithiol. Maent yn cynllunio amrywiaeth gwerthfawr o weithgareddau i'r plant sy'n hyrwyddo a chefnogi eu datblygiad. Mae eu polisïau'n gyfredol ac yn amlwg yn cael eu gweithredu trwy gydol y lleoliad. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarnhaol a thrylwyr mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn ymwybodol beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am ddiogelwch plentyn. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan bob un o'r ymarferwyr dystysgrif cymorth cyntaf cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i ddelio ag unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau. Maent yn sicrhau cofnodion buddiol sydd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn a'r cymorth cyntaf a roddwyd i unrhyw blentyn.

Maent yn cadw cofnodion pwrpasol o alergeddau ac anghenion dietegol y plant, ac mae’r wybodaeth yn cael ei arddangos o fewn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn defnyddio App electroneg i gadw cofnodion am yr hyn mae’r plant yn ei wneud yn ddyddiol. Mae hyn yn sicrhau fod gan rieni a gwarchodwyr y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau eu plant. Cofnodir o fewn y system yr hyn maent wedi ei fwyta, pa weithgareddau maent wedi mwynhau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. O ganlyniad, mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn achosi pryder.

Mae ymarferwyr yn rhoi sylw cryf a medrus i bob agwedd o hylendid y plant. Caiff y plant eu hatgoffa i olchi eu dwylo cyn ac ar ôl gweithgareddau gan gynnwys amser bwyd. Caiff y plant yr opsiwn i gael cinio wedi ei goginio o’r ysgol ar y safle neu i ddod a phecyn bwyd. Mae ymarferwyr yn annog plant i fwyta ac yfed yn iach yn unol a pholisi y gwasanaeth ac mae’r plant yn cymryd rhan mewn  gweithgareddau corfforol yn ddyddiol.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i feithrin perthnasau arbennig a gwerthfawr gyda’r plant yn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr bob amser yn cyfarch ac yn sgwrsio gyda’r plant mewn modd hapus a chynnes. Maent yn deall pryd i ymyrryd a phryd i adael y plant i wneud penderfyniadau yn annibynnol. Mae natur yr ymarferwyr yn dawel a chadarnhaol yng nghwmni’r plant. Maent yn sicrhau fod y plant yn saff ac yn cyfleu iddynt sut i ymddwyn yn briodol gan esbonio’r rhesymeg dros gyfarwyddiadau penodol. Mae ymarferwyr yn cyfathrebu yn dyner a gofalgar iawn. Maent yn canmol ac annog y plant ym mhob gweithgaredd. Oherwydd ethos y lleoliad, mae ymarferwyr yn annog y plant i arwain eu chwarae. Er enghraifft, maent yn gadael i blant greu cwrs antur eu hunain allan o offer sydd ar gael gan ond roi cymorth pan fo angen.

Mae ymarferwyr yn cynllunio yn ôl syniadau a sylwadau’r plant. O ganlyniad, maent yn mynd ati i ddatblygu cyfleoedd i’r plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn adnabod pob plentyn yn dda ac yn dangos balchder yn eu llwyddiannau. Maent yn darparu’n effeithiol ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan addasu’r ddarpariaeth yn ôl y galw. Mae ganddynt bartneriaeth werthfawr â rhieni. Trwy eu defnydd o’r App, maent yn sicrhau ymwybyddiaeth rhieni o lwyddiannau a chyflawniadau eu plant yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plant.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio’n  bwrpasol ac ymatebol, gan adlewyrchu'n glir ddiddordebau’r plant a chamau datblygiadol. Mae arsylwadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i lywio'r camau nesaf, gan sicrhau bod dysgu yn ystyrlon ac wedi'i bersonoli. Anogir plant i gyfrannu at gynllunio a meithrin perchnogaeth yn eu dysgu. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn trefnu gweithgareddau penodol er mwyn ymateb i ddiddordeb plentyn sydd eisiau helpu gyda’r garddio. Mae ymarferwyr yn cynllunio’n effeithiol gan sicrhau fod

gweithgareddau ac adnoddau yn cyd-fynd yn dda gyda'r cwricwlwm i Gymru ac yn dangos dilyniant ar draws y pum llwybr datblygu.

Mae ymarferwyr yn cynnig profiadau cynhwysol, diddorol sy'n addas ar gyfer cam datblygiad y blant. Mae tystiolaeth glir o addysgu ymatebol, gydag ymarferwyr yn addasu'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion plant sy'n dod i'r amlwg. Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gryf o ddatblygiad pob plentyn. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n dda ac yn cael ei wella'n rheolaidd i gefnogi chwilfrydedd plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn addasu'r ardal ddŵr gan ychwanegu dŵr lliw newydd a gwahanol offer i ddyfnhau'r ymgysylltu.

Mae ymarferwyr yn cynnal perthynas gynnes, gefnogol â phlant. Maent yn cymryd rhan mewn cyd-chwarae, gwrando'n astud ac yn rhyngweithio ar lefel y plentyn. Mae ymarferwyr yn meithrin cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu annibyniaeth tra'n darparu amgylchedd diogel i ganiatáu hyn. Er bod ymarferwyr yn cefnogi dilyniant sgiliau yn dda, nid ydynt bob amser yn gyson wrth ymestyn y cyfleoedd i'r plant chwarae er mwyn datblygu meddwl dyfnach a'u hannog i geisio datrys problemau

Mae cynllunio'r ymarferwyr yn ymgorffori llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn llwyddiannus trwy chwarae pwrpasol a chyd-destunau bywyd go iawn. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r plant ddatblygu'r sgiliau hyn mewn ffyrdd ystyrlon fel chwarae rôl a defnyddio offer digidol sy'n briodol i'w hoedran. Mae datblygiad corfforol yn cael ei gefnogi'n dda. Mae ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau sy'n adeiladu sgiliau corfforol mawr a bach, megis dringo, defnyddio cylchoedd, a thrin offer bach mewn nifer o ardaloedd chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn effeithiol. Mae plant yn dysgu am draddodiadau Cymreig, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi, ac yn archwilio eu cymuned leol trwy ymweld â fferm gyfagos. Mae amrywiaeth yn cael ei adlewyrchu mewn llyfrau, adnoddau chwarae rôl, a phrofiadau blasu bwyd, Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r cyfleoedd gystal ag y gallent er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y plant yn llawn.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant yn dda. Mae ymddygiad yn cael ei reoli'n gyson a chadarnhaol, gydag ymarferwyr yn cynnig canmoliaeth a modelu rhyngweithiadau parchus. Mae ymarferwyr yn annog rannu, cymryd tro ac yn helpu plant i ddeall y cywir o'r anghywir. Mae plant hefyd yn dysgu gofalu am eu hamgylchedd a phethau byw gydag empathi a pharch.

Mae gweithdrefnau asesu yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i nodi'r camau nesaf. Mae'r rhain yn cael eu rhannu gyda chydweithwyr a rhieni, gan sicrhau dull

cydweithredol o gefnogi cynnydd pob plentyn. O ganlyniad, mae’r plant yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu fel dysgwyr hyderus.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae gan arweinwyr fesurau a gweithdrefnau helaeth ac effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol. Mae arferion hylendid yn gadarn. Caiff plant fynediad annibynnol i olchi eu dwylo. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel trwy eu dealltwriaeth o’r disgwyliadau arnynt, asesiadau risg pwrpasol ac asesiadau risg tân. Maent yn ystyried  risgiau yn ymwneud a gweithgareddau ac ymweliadau, ond yn deall pwysigrwydd fod cyfleoedd i blant gymryd risgiau diogel.

Mae'r lleoliad ar dir yr ysgol leol ac mae’r ardal allanol a mewnol yn ddiogel gyda ffens bwrpasol yn sicrhau preifatrwydd a diogelwch y plant. Mae’r ddarpariaeth yn sicrhau trawstoriad o fannau chwarae i’r plant, gan gynnwys rhai cysgodol pan fo’u hangen. Mae’r drysau'n agored i’r plant yn barhaus, gan sicrhau fod rhyddid iddynt grwydro o un ardal i’r llall. Mae arweinwyr yn sicrhau bod lefelau priodol o ymarferwyr i oruchwylio ac i gadw plant yn ddiogel.

Yn fewnol ac yn allanol, mae ystod eang o ddodrefn ac adnoddau o ansawdd dda sydd bob amser o fewn cyrraedd y plant. Mae cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn cael eu hyrwyddo’n briodol.  Er hynny, mae arweinwyr wedi adnabod fod angen ehangu ar yr adnoddau sydd ar gael a gwneud defnydd pellach or gymuned leol i ddathlu diwylliannau amrywiol. Mae'r ardaloedd mewnol wedi eu haddurno gyda phosteri ac arddangosfeydd lliwgar o waith y plant. Mae’r ardaloedd yn cael eu trefnu’n effeithiol, gan gynnig cyfleoedd i blant ymchwilio ac arbrofi’n annibynnol.

Mae’r ardaloedd tu allan, sydd ar ddwy lefel wahanol yn cynnig profiadau gwerthfawr, ble mae’r plant yn gallu dewis rhwng nifer o weithgareddau sy’n enyn eu diddordeb. Er enghraifft, maent yn elwa o arbrofi, eistedd yn dawel neu chwarae ar y beiciau. O fewn yr ardaloedd, ceir cegin fwd, offer arbrofi mewn dŵr, meinciau picnic, ardaloedd tawel ac ardal i chwarae ar y beiciau. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn ystyried diogelwch yr ardal yn ofalus iawn.  Maent yn sicrhau fod y profiadau yn hyrwyddo medrau, a sicrhau fod y plant yn datblygu a dysgu mewn ardal ddiogel, tra yn cymryd risgiau pwrpasol wedi’u rheoli.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae gan arweinwyr y lleoliad weledigaeth glir ac uchelgeisiol sy’n rhoi blaenoriaeth i lais plentyn a gwelliant parhaus. Mae’r weledigaeth hon wedi’i gwreiddio’n gadarn mewn arfer dyddiol gan greu lleoliad cartrefol a chroesawgar. Mae arweinwyr yn cynnal trefniadau hunanwerthuso pwrpasol sydd wedi ei seilio ar ystyried amrediad effeithiol o dystiolaeth. Ceir cyfleoedd i’r holl rhanddeiliaid gyfrannu at y broses, ac mae arweinwyr yn

canolbwyntio’n barhaus ar effaith eu gwaith ar brofiadau a chynnydd y plant yn eu gofal. Maent yn gwerthuso cynnydd yn rheolaidd ac effeithiol.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn darparu adlewyrchiad manwl a chywir o'i werthoedd. Mae'n amlinellu'n glir ymagwedd y lleoliad at ofal a dysgu. Mae arweinwyr yn llwyddo i greu amgylchedd cartrefol a gofalgar lle mae lleisiau plant yn cael eu clywed, eu hanghenion yn cael eu diwallu, a’u dysgu yn cael ei gefnogi drwy ymarfer ymatebol ac adlewyrchol.

Mae arweinwyr yn meithrin ethos cadarnhaol a chynhwysol ac yn ymrwymedig i hyrwyddo’r Gymraeg. Maent yn hyrwyddo ac yn darparu eu gwasanaethau'n weithredol yn unol â disgwyliadau Arolygaeth Gofal Cymru (AGC), gan sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn y Cynnig Gweithredol. Er bod y ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei datblygu, nid yw’r gwaith hwn eto wedi’i wreiddio’n llawn.

Mae’r broses recriwtio staff yn gadarn ac mae pob ymarferydd yn gymwys ar gyfer eu rolau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau, ac mae diwylliant cryf o gydweithio. Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi, gyda chyfleoedd rheolaidd i rannu syniadau. Fodd bynnag, er bod cyfarfodydd goruchwylio yn digwydd yn rheolaidd, nid ydynt yn ddigon manwl a thrylwyr er mwyn gosod targedau datblygiadol i ymgorffori diwylliant o welliant parhaus a dilyniant gyrfa.

Mae’r amgylchedd wedi’i gynllunio’n ofalus gyda mewnbwn gan staff a phlant. Defnyddir cyllid a grantiau’n effeithiol i ddarparu adnoddau cynaliadwy, agored sy’n cefnogi creadigrwydd, datblygiad corfforol a lles emosiynol y plant a’r staff. O ganlyniad, mae’r plant yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol ac yn llwyr ymgysylltu â’u chwarae,  ar draws holl ardaloedd y ddarpariaeth.  Mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon i bryderon ac yn sicrhau bod pob polisi yn cael ei adolygu’n rheolaidd ac yn cael ei ddeall gan staff. Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â holl reoliadau AGC ac yn bodloni’r safonau gofynnol cenedlaethol a gofynion diogelu. Er enghraifft, mae’r newid diweddar i system ddigidol wedi cryfhau arferion diogelu ac wedi gwella cyfathrebu.

Mae’r lleoliad yn cynnal partneriaethau cryf gyda theuluoedd drwy lwyfannau digidol a chyfathrebu wyneb yn wyneb. Mae rhieni’n cael gwybod am gynnydd eu plentyn ac mae hyn yn cryfhau’r cysylltiad rhwng y cartref a’r lleoliad. Mae arweinwyr hefyd yn cynnal cysylltiadau cryf gyda’r ysgol leol ac yn gweithio’n agos gyda swyddogion cefnogi yr awdurdod lleol i wella ansawdd y ddarpariaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2025